**Pwyllgor Trwyddedu CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod hybrid y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar ddydd Llun, 14 Tachwedd 2022 am 5.00pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A. Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd L Ellis |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd A O Rogers |
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd T Williams |

**Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol

**10 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Powell a J. Turner.

**11 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**12 Deddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**

*PENDERFYNWYD* ***nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.***

**13 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2022 yn rhai cywir.

**14** **Trafod Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 27.06.22 - 16.10.22**

Rhannodd y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion am drwyddedau a chofrestriadau a gafodd eu dyrannu yn ystod y cyfnod rhwng 27 Mehefin 2022 a 16 Hydref 2022 â'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**15** **Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**16** **Trafod y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu Gofrestru:**

Cafodd yr Aelodau wybod bod Cais wedi'i dynnu'n ôl o'r cyfarfod ar ôl i'r swyddogion mynd i'r afael â'r cais yn unol â'r trefniadau ar gyfer penderfyniadau dirprwyedig gan swyddogion.

**PENDERFYNWYD** nad oes angen trafod unrhyw faterion pellach mewn perthynas â'r eitem yma.

**17** **Crynodeb Gorfodi (Gan gynnwys Data Apeliadau/Erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 30.06.22 - 16.10.22**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned adroddiad sy'n amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2022 a 16 Hydref 2022.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**18** **Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 27.06.22 - 16.10.22**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned adroddiad i'r Aelodau sy'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi yn unol â'r trefniadau Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 30 Mehefin 2022 a 16 Hydref 2022.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.32pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX CADEIRYDD.**